COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 22ain MAWRTH 2001 AM 9.30 YN NHY CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Presennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S G Smith (Aelod)	Mr C Chapman

Gwestai

Rita Hale IPF

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23ain Chwefror 2001

1.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion yn codi

2.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd sylw'r cyfarfod at amgylchiadau a fu'n rhwystr rhag cyflawni rhai pwyntiau o'r cofnodion diwethaf.

(i) Ar bwynt 3.4, adroddodd yr Ysgrifennydd na fyddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gallu darparu asesiad llawn o'r cyflwyniadau a wnaed ar Arolwg Llangollen hyd nes y derbynnir ymatebion i adroddiad IPF ar Gyngor Sir Dinbych.

(ii) Adroddodd Mr Halsall mai ffactor arall a fyddai'n oedi arolwg Llangollen ac efallai arolygiadau eraill fyddai'r cyfyngiadau presennol ar symudiadau yng nghefn gwlad oherwydd argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hysbysu o'r oedi posibl.

(iii) Adroddodd yr Ysgrifennydd na chynhyrchwyd yr asesiad y gwnaed cais amdano ym mhwynt 5.4 ynglyn ag arolwg Llandudoch oherwydd y credai'r Ysgrifenyddiaeth bod angen eglurhad ar oblygiadau ariannol y cynigion drafft ar Dref Aberteifi a Cheredigion. Byddai Mr Halsall yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth o'r effaith ar lefelau lleol a sirol. Gobeithir y gellid derbyn eglurhad mewn pryd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Ebrill.

2.2 Adroddodd Mr Halsall bod yr ateb i'r problemau yr adroddwyd arnynt ym mhwynt 8.1 o'r cofnodion diwethaf wedi ei fonitro ac ymddengys bod y sefyllfa bellach yn foddhaol.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen

3.1 Crynodeb o gynrychioliadau ychwanegol;

(i) Nododd y Comisiwn y cynrychioliadau ychwanegol a dderbyniwyd

3.2 Adroddiad Terfynol IPF (cyflwyniad gan Rita Hale);

(i) Amlygodd Ms Hale y meysydd o ddiddordeb yn ei hadroddiad a sefydlodd sail ei chanfyddiadau a manylodd ar y dulliau a ddefnyddiodd fel sylfaen iddynt.

(ii) Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan y Comisiynwyr i Ms Hale ynglyn â manylion yr adroddiad. Ar ôl derbyn atebion boddhaol i'w cwestiynau, **cytunodd** y Comisiwn **i dderbyn yr adroddiad.**

(iii) **Cytunodd Ms Hale** i anfon tri deg o gopïau o'r adroddiad i'r Comisiwn i'w dosbarthu i bartïon perthnasol oedd â diddordeb. Cytunodd Ms Hale hefyd y byddai'n ateb unrhyw ymholiadau a dderbyniai'r Comisiwn ynglyn â'i hadroddiad.

3.3 Nodyn o gyfarfod Cyngor Tref Llangollen – 5ed Mawrth 2001.

(i) Adroddodd y Cadeirydd ar flas y cyfarfod ac roedd ef a'r swyddogion a'i gynorthwyodd o'r farn i'r cyfarfod fod yn un ffafriol.

(ii) Nododd y Cadeirydd bod nifer o Gynghorwyr Tref Llangollen a Chynghorwyr Sir Dinbych yn bresennol yn y cyfarfod er bod mwyafrif helaeth y cwestiynau a'r sylwadau wedi dod gan y cyhoedd.

(iii) **Cytunwyd** y bu'n werthfawr i fynychu'r cyfarfod.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Phenfro yn ardal Llandudoch

4.1 Crynodeb o Gynrychioliadau

(i) **Nododd y cyfarfod** bod bron iawn bob cynrychiolaeth yn erbyn y Cynigion Drafft wedi eu derbyn oddi wrth swyddogion ac Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberteifi, er mai dim ond 1% o'r cyfanswm a dderbyniwyd oedd y rhain.

(ii) Er gwaethaf y 99% ysgubol o atebion o blaid y Cynigion Drafft, nododd y Cadeirydd bod angen eu pwyso a'u mesur yn erbyn ystyriaethau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn esgeulus i wneud penderfyniad cyn rhoi cyfle i Gyngor Sir Ceredigion ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r honiadau ariannol a wneir ganddynt a Chyngor Tref Aberteifi.

4.2 Cwmpas yr Arolwg.

(i) **Cytunwyd** o ganlyniad i'r cyngor a dderbyniwyd gan ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn, bod cwmpas yr arolwg yn gyfyngedig i ardal Llandudoch a bod yr ardaloedd y cyfeirir atynt yn y Cynigion Drafft fel C a D y tu allan i gwmpas yr Arolwg.

5. Contractau Gwasanaeth – adroddiad o gynnydd

Hysbyswyd y cyfarfod gan Mr Halsall bod y tendr ar gyfer gwasanaethau cyfieithu wedi ei ddyfarnu i Wasanaeth Cyfieithu Prysg, y contractwyr presennol. Cyflwynwyd hwn yn dilyn ymarferiad tendro llawn.

Hysbyswyd y cyfarfod hefyd mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau contract cyfrifo oedd 2pm y diwrnod hwnnw.

Cadarnhaodd Mr Halsall hefyd bod y contract argraffu hefyd wedi ei ddyfarnu.

6. Secondiad – copi o lythyr ynghlwm

Hysbyswyd y cyfarfod o sefyllfa bresennol secondiad Mr Halsall. Roedd y cyfarfod yn fodlon â'r sefyllfa a **chytunwyd** i ddisgwyl datblygiadau pellach.

7. Unrhyw Fater Arall

(i) Llety

Hysbyswyd y cyfarfod gan y Cadeirydd y byddai'n cadeirio Comisiwn ar drefniadau etholiadol (Llywodraeth Leol) yng Nghymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd archwilio'r posibilrwydd o leoli rhai o'r staff cysylltiedig o fewn swyddfeydd y Comisiwn. **Cytunwyd** i archwilio'r sefyllfa pan fyddai mwy o fanylion ar gael.

(ii) Ysgrifennydd

Dymunai'r Cadeirydd gofnodi diolchiadau'r Comisiwn i Mr Roger Knight, yr Ysgrifennydd sy'n ymadael, a'r gwerthfawrogiad am ei waith caled, gwasanaeth ac ymroddiad, gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Dymunai Mr Halsall hefyd, ar ran yr Ysgrifenyddiaeth, gyflwyno'u gwerthfawrogiad o ddull rheoli Mr Knight a'u dymuniadau gorau iddo ar gyfer ei weithgareddau yn y dyfodol.

(iii) Y newyddion diweddaraf ar y sefyllfa bresennol gydag Arolygiadau.

Hysbyswyd y cyfarfod o'r sefyllfa ddiweddaraf ar ddyddiadau cyhoeddi adroddiadau:

Arolwg	Cyhoeddwyd
Clunderwen / Gorllewin Llandysilio (Ffin)	28 Chwefror 2001 (Adroddiad Drafft – dyddiad ar gyfer cynrychioliadau 04/05/2001)
Cymuned Cynffig	7 Chwefror 2001 (Adroddiad Terfynol)
Bro Morgannwg/ Rhondda Cynon Taf (Ffin)	12 Mawrth 2001 (Adroddiad Terfynol)
Bro Morgannwg (Etholaethol)	23 Mawrth 2001 (Adroddiad Terfynol)

Nododd y cyfarfod ei bryder dros yr oedi o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth symud ymlaen gyda'r Cynigion Terfynol ar yr Arolwg o ardal Ffordd Pontardawe. Daeth yr Ysgrifenyddiaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa gan un o'r trigolion lleol a fyddai'n mynd ar drywydd y mater gydag Aelodau lleol y Cynulliad. Mae hwn yn un o nifer ar restr gynyddol o gynigion sydd yn aros am gamau gweithredu gan y Cynulliad.

(iv) Arolygon Cymunedol

Nododd y cyfarfod bod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wedi hysbysu'r Comisiwn y byddant yn cynnal nifer o Arolygon Cymunedol.

(v) Baich gwaith yn y dyfodol

Gwnaed cais gan y Dirprwy Gadeirydd i'r Comisiwn ail-edrych ar y rhestr o geisiadau am arolygon ffin posibl a argymhellwyd i'w hystyried yn wreiddiol yng nghyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 9fed Medi 1997. **Cytunwyd** i roi ystyriaeth o'r rhestr ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Comisiwn a amserlennwyd ar gyfer 20 Ebrill 2001.